

21 Awst 2020

Mae cwmni Alun Griffiths (Contractwyr) Cyf wedi'i benodi gan Ymgynghoriaeth Gwynedd (Cyngor Gwynedd) fel y Prif Gontractwr i ymgymryd â gwaith ar Gynllun Lliniaru Llifogydd Rhostryfan.

Fel rhan o'r Cynllun Lliniaru Llifogydd rydym wrthi'n dargyfeirio'r garthffos bresennol. Fodd bynnag, yr ydym wedi darganfod amodau tir na ragwelwyd ac o ganlyniad mae angen gwneud newidiadau ar unwaith i'r dyluniad presennol. O ganlyniad i'r newidiadau hyn bydd angen cau'r ffordd dros dro wrth y gyffordd i Bro Wyled er mwyn caniatáu man gwaith diogel i ymgymryd â'r gwaith hanfodol hwn.

Oherwydd natur y gwaith a'r amodau tir anodd yr ydym yn eu profi ar hyn o bryd, ni allwn roi dyddiad penodol ar gyfer cau'r ffordd, ond bwriad y llythyr hwn yw rhoi rhybudd o flaen llaw i chi y bydd cyfyngiadau ar symud cerbydau o fewn yr ardal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 24 Awst. Gwneir pob ymdrech i sicrhau mai ond pan fo'r angenyn unig y caiff y ffordd ei chau. Bydd darpariaeth ar gyfer mynediad i gerbydau brys a bydd y gyffordd yn cael ei hailagor ar ddiwedd pob diwrnod gwaith. Unwaith y bydd y gwaith yn yr ardal hon yn dechrau, disgwylir y bydd y gyffordd ar gau rhwng 9yb a 5yh. Gwneir pob ymdrech i roi gwybod i chi am yr union ddyddiadau.

Ymddiheurwn am yr anghyfleustra y bydd y gwaith hwn yn sicr o achosi a gofynnwn i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl os oes gennych unrhyw anghenion mynediad penodol yn ystod y cyfnod hwn. Cofiwch y byddwn yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud mor gyflym a diogel â phosibl i ganiatáu ailagor y gyffordd.

Yn gywir

Mandy Evans

Mandy Evans
Swyddog Cyswllt Cymunedol
Ar gyfer ac ar ran Alun Griffiths (Contractwyr) Ltd

03300412185
mandy.evans@alungriffiths.co.uk